

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Minutes of a meeting of the Pwyllgor Craffu Partneriaethau held in Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun on Dydd Iau, 8 Tachwedd 2018 at 10.00 am.

PRESENT

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd).

Yr Aelod Cabinet Arweiniol – roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn bresennol ar gyfer Eitemau 5, 6 a 7

Sylwedydd – y Cynghorydd Glenn Swingler

ALSO PRESENT

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Rheolwr Perfformiad a Busnes (JM), Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymunedol a Busnes (AH) Cydlynnydd Craffu (RE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

Cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6) – Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal: Yr Ardal Ganolog: Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol - Therapiau ac Alison Kemp, Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Joan Butterfield a Hugh Irving

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitemau 5 a 6 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Gareth Davies – Gweithiwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghorydd Emrys Wynne - Aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018 a chofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018.

Materion yn Codi -

Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig (1 Hydref 2018) - Adlewyrchodd y Cadeirydd ar y cyfarfod cadarnhaol a gafwyd gyda swyddogion y Bwrdd Iechyd i drafod canfyddiadau'r ymchwiliadau mewn perthynas â Ward Tawelfan yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd yr ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw a'r adroddiadau atodol ychwanegol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi eu cylchredeg yn flaenorol fel rhan o Friff Gwybodaeth y Pwyllgor, ynghyd â Strategaeth Dementia'r Bwrdd ar gyfer 2018 - 2020.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018 ac 1 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

5 INFFYRMARI DINBYCH

Croesawodd y Cadeirydd Bethan Jones (Cyfarwyddwr Rhanbarth: Yr Ardal Ganolog), Gareth Evans (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol - Therapïau) ac Alison (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod i drafod yr eitemau busnes yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd.

Inffymari Dinbych - Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymunedol friff, drwy gyflwyniad PowerPoint, i'r Pwyllgor ar gefndir y penderfyniad i gau Ward Lleweni yn yr Inffymari ar ôl cynnal gwiriadau diogelwch tân yn unol â'r canllaw a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn sgîl trychineb tân Tŵr Grenfell. Roedd y gwiriadau diogelwch tân wedi canfod bod yr adeilad 200 mlwydd oed "wedi'i adrannu'n wael a bod y llawr cyntaf wedi'i adeiladu o drawstiau pren a delltenu a phlaster." Ar sail hynny, daeth yr aseswyr diogelwch tân i'r casgliad "o ystyried nifer y cleifion sydd â phroblemau symudedd a'r nifer gyfyngedig o staff, hyd yn oed pe bai'r holl waith adferol yn cael ei gwblhau byddai gallu rheoli'r adeilad, sy'n gofyn am wacáu yn fertigol, yn ddiogel yn ystod tân yn heriol iawn." Ar sail yr wybodaeth hon, penderfynwyd cael gwared ar 10 o'r 17 gwely ar Ward Lleweni er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwacáu. Er mwyn gwneud iawn am y golled o wlaŷ cymunedol yn Ninbych, cafwyd 5 gwely ychwanegol i gleifion mewnol yn Ysbyty Rhuthun ac fe gynhaliwyd gwaith adferol, hynny yw'r panel larwm tân, rhannu ac adrannu'r gofod yn y nenfwd ac ati, ar lawr gwaelod adeilad yr Inffymari. Tra'r oedd gwaith hwn yn cael ei wneud roedd arolwg manwl o adeilad yr ysbyty hefyd yn cael ei gynnal gan ymgynghoriaeth diogelwch tân. Briff yr ymgynghoriaeth oedd penderfynu ar safon yr adrannu o fewn adeilad gwreiddiol yr ysbyty a gallu adeiladwaith yr adeilad i wrthsefyll tân. Canfu'r arolwg hwn bod diffygion sylweddol o ran adrannu yn yr adeilad gwreiddiol ar y llawr cyntaf ac yn y to. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân cyfredol ac felly roedd y strategaeth wacáu bresennol ar gyfer y llawr cyntaf, a oedd yn seiliedig ar drefniadau gwacáu llorweddol a dibyniaeth ar adrannu, wedi'i pheryglu ac felly nid oedd yn cydymffurfio â gofynion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, o ganlyniad gwnaed penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio'r 7 gwely a oedd yn weddill i gleifion mewnol ar Ward Lleweni a rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ystafell esgor dan arweiniad bydwaig. Pwysleisiodd, er nad oedd y llawr cyntaf bellach yn addas ar gyfer gwlaŷ i gleifion mewnol ac ati, nid oedd hyn yn golygu nad oedd modd defnyddio'r llawr at ddiben arall.

Wrth wneud y penderfyniad uchod, ymgynghorodd y Bwrdd Iechyd ag ystod eang o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys gwleidyddion lleol a chenedlaethol, y Cyngor Iechyd Cymuned, staff, undebau llafur, staff yr awdurdod lleol a Chynghrair Cyfeillion yr ysbyty. Cytunodd hefyd ar drefniadau hirdymor â Meddygon Teulu Rhuthun i ofalu am y cleifion yn y gwllâu ychwanegol yn Ysbyty Cymuned Rhuthun ac adleoli nifer fechan o staff i Ysbyty Rhuthun. O ganlyniad i golli'r gwllâu, comisiynwyd gwaith i ganfod capasiti cleifion mewnol amgen ac archwilio llwybrau gofal cleifion mewnol amgen.

Roedd Adran Ystadau Arbenigol GIG wrthi'n nodi'r costau lefel uchel sy'n ofynnol i sicrhau bod y llawr cyntaf yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch gan gynnwys safonau diogelwch tân. Roedd eisoes yn hysbys y byddai'n rhaid gwneud gwaith strwythurol mawr a byddai'r gwaith yn effeithio ar lety'r llawr gwaelod. Oherwydd yr angen i gwrdd â safonau gwasanaeth iechyd modern, rhagwelwyd na fyddai modd symud yr 17 o wllâu, a gollwyd ar ôl cau Ward Lleweni, i lawr gwaelod yr ysbyty. Rhagwelwyd y byddai 4 i 6 o wllâu ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y gwllâu ar y llawr gwaelod yn y pen draw. Roedd dau opsiwn wedi'u nodi ar restr fer fel datrysiadau posibl o ran sut y gellid darparu'r gwllâu ychwanegol hyn. Roedd un yn golygu trawsnewid yr ardal ffisiotherapi bresennol i fae/ ward wllâu ac adleoli'r ddarpariaeth ffisiotherapi i ran arall o safle'r ysbyty. Roedd yr opsiwn arall yn golygu adeiladu estyniad. Byddai'r ddau opsiwn yn golygu y byddai'n rhaid gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf er mwyn eu gwireddu. Pwysleisiodd swyddogion y Bwrdd Iechyd eu hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn Inffymari Dinbych yn y dyfodol. Yn ystod y misoedd diweddar, roedd y Bwrdd wedi buddsoddi mewn nifer o brosiectau buddsoddi yn ymwneud â chyfleusterau, hynny yw, gosod boeler newydd, diweddarau'r goleuadau allanol a'r palmentydd. Roedd y cyfleuster ar hyn o bryd yn darparu ystod o wasanaethau cymunedol gwerthfawr i'r ardal leol, yn cynnwys gwllâu i gleifion mewnol, clinigau cleifion allanol, gwasanaethau pelydr x, uned mân anafiadau, awdioleg, ffisiotherapi, Ystafell Therapi Mewnwythiennol a gwasanaethau sgrinio amrywiol. Roedd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn awyddus i gyfuno eu gwasanaethau ar y safle yn y dyfodol, tra bod y gwasanaethau pelydr x wedi cynyddu eu sesiynau yn ddiweddar drwy ddarparu dwy sesiwn yn ychwanegol a arweiniodd at yr ysbyty yn cynnig gwasanaeth pelydr x llawn amser. Roedd defnydd yr Ystafell Therapi Mewnwythiennol yn cynyddu, yn ogystal â'r ymweliadau â'r uned mân anafiadau a oedd wedi nodi cynnydd o 22% yn nifer yr ymwelwyr rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2018 o gymharu â'r chwe mis blaenorol. Ar gyfartaledd, roedd cyfanswm o 50 o gleifion y mis yn derbyn gofal fel cleifion mewnol yn Inffymari Dinbych ac Ysbyty Rhuthun. Ar hyn o bryd, nid oedd swyddi gwag yn Inffymari Dinbych. Roedd swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr o Gynghrair Cyfeillion yr ysbyty i drafod eu syniadau ar gyfer gwasanaethau yn yr ysbyty yn y dyfodol. Roeddent wedi nodi rhai cynlluniau i'r Bwrdd Iechyd eu harchwilio ymhellach ac wedi gofyn bod ardal y llawr cyntaf yn cael ei defnyddio cyn gynted â phosib at ddibenion darparu rhyw fath o wasanaeth yn hytrach nag aros yn wag a pheri pryder o ran dyfodol hirdymor yr ysbyty.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dyma swyddogion y Bwrdd Iechyd yn -

- hysbysu bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hefyd wedi cynnal archwiliad diogelwch tân yn yr ysbyty yn ystod y misoedd diwethaf.
- cadarnhau y byddai presenoldeb trawstiau pren i gefnogi llawr ardal y llawr cyntaf yn atal staff rhag gwacáu ward y llawr cyntaf yn ddiogel, gan ddefnyddio'r weithdrefn wacáu llorweddol, pe bai tân. Roedd cydymffurfedd â rheoliadau a gweithdrefnau diogelwch felly yn hanfodol. Roedd tân diweddar mewn cartref gofal yng Ngogledd Cymru wedi tynnu sylw at y broblem hon. Roedd yr achos hwnnw yn cael ei archwilio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- cadarnhau y byddai safonau modern yn ymwneud â darpariaeth gofod ar gyfer cleifion mewnol ar wardiau ysbyty yn ei gwneud yn amhosib i'r Bwrdd gael yr un faint o wâlau newydd â'r nifer o wâlau a gollwyd yn yr Inffymari. Er hynny, roedd y Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i wneud iawn am rai o'r gwâlau a 'gollwyd' drwy ddarparu 4 i 6 gwely ychwanegol ar y ward ar y llawr gwaelod (Ward Famau).
- hysbysu y byddai'n rhaid creu a phrisio achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i geisio cyllid cyfalaf er mwyn hwyluso darpariaeth y gwâlau ychwanegol ar Ward Famau, gan y byddai cost y gwaith adeiladu ac ail-fodelu mwy na thebyg yn fwy na £1m.
- hysbysu'r Pwyllgor pan fo costau ar gael a phan fo achos busnes drafft wedi'i gwblhau, byddai'r Bwrdd yn ymgynghori â phreswylwyr, y Cyngor a budd-ddeiliaid eraill ar y cyfleuster mwyaf addas i'w ddatblygu er mwyn diwallu anghenion y gymuned. Byddai'r prosiect yn cynnwys cyfleusterau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac anghenion darpariaeth gwasanaeth iechyd cymunedol a ragwelir yn y dyfodol.
- cadarnhau bod gofynion urddas a phreifatwydd bellach yn rhan hanfodol o'r broses ddylunio ar gyfer cyfleuster iechyd newydd neu gyfleuster iechyd wedi'i ailwampio.
- hysbysu, er bod gan BIPBC oddeutu 60 o wâlau cymunedol yn llai yn Sir Ddinbych o ganlyniad i gau Ysbyty Cymuned Prestatyn, Ysbyty Brenhinol Alexandra a Ward Lleweni yn Inffymari Dinbych yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oedd prinder o wâlau cymunedol yn y sir i ddiwallu angen lleol. Drwy reoli gwâlau yn well ac argaeledd pecyn gofal cartref gwell i gleifion, roedd y galw am wâlau i gleifion mewnol wedi lleihau. Cydnabuwyd bellach bod treulio cyfnodau hirach yn yr ysbyty yn cyfrannu at gollu'r gallu i ddefnyddio cyhyrau ac yn arwain at fwy o ddryswch ymhlith cleifion, cyfeiriwyd at hyn yn aml fel 'Parlys Pyjamas'. Drwy gydweithio'n effeithiol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, llwyddodd y Gwasanaeth Iechyd i gael cleifion adref yn gynt a thrwy wasanaethau'r Tîm Adnoddau Cymunedol, roedd yn gallu eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain.
- cadarnhau, er mai'r nod oedd cael bobl adref cyn gynted â phosibl lle bo modd gwneud hynny, cydnabu'r Bwrdd Iechyd bod angen i'r gwâlau cymunedol fod ar gael i'r unigolion a oedd eu hangen ac y byddai cleifion a oedd yn agosáu at ddiwedd eu hoes yn cael dewis yn lle yr oeddent eisiau treulio eu dyddiau olaf.
- hysbysu, er bod gan ardaloedd Cyngor Conwy a Sir Ddinbych y nifer fwyaf o breswylwyr hŷn yng Ngogledd Cymru, roedd gan yr ardaloedd y niferoedd isaf o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Er hynny, nid hyn oedd y rheswm dros beidio â chael gwâlau ysbyty cymuned o gwbl. Roedd gan y cyfleuster cleifion mewnol Ysbyty Cymuned a chyfleusterau eraill ran hanfodol i'w chwarae drwy ofal ymadfer ac ailhyfforddi pobl er mwyn eu paratoi i ddychwelyd gartref. Rhagwelwyd y byddai gan gartrefi preswyl rôl i'w chwarae yn y dyfodol o ran gofal ymadfer ac ailhyfforddi cleifion.

- cadarnhau bod y Gwasanaeth Gofal Cartref Uwch wedi'i ddatblygu yn dilyn cau Ysbyty Brenhinol Alexandra fel dull o ddarparu gofal tebyg i ofal claf mewnol, yn debyg i'r hyn a oedd yn cael ei ddarparu yn yr ysbytai cymunedol, i gleifion yn eu cartrefi eu hunain.
- ail-gadarnhau nad oedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer cau'r ysbyty cymuned yn Ninbych. Fodd bynnag, roedd angen sefydlu'r math o gyfleuster iechyd y byddai'r dref a'r ardal gyfagos ei angen ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys pa wasanaethau fyddai'n rhaid eu darparu ar y safle. Ar ôl penderfynu ar hynny, byddai'n rhaid llunio cynigion a chynlluniau er mwyn darparu cyfleuster addas i'r dyfodol yn y dref. Roedd yn bwysig cofio bod "ysbyty cymuned" yn llawer iawn mwy na gwllâu i gleifion mewnol yn unig, er bod gwllâu i gleifion mewnol yn rhan bwysig o gyfleuster o'r fath.
- dweud bod disgwyl i Adran Ystadau Arbenigol GIG Cymru fod mewn sefyllfa i ddarparu'r Bwrdd Iechyd â chostau mynegol lefel uchel ar gyfer y gwaith ailwampio sydd angen ei wneud ar y llawr gwaelod a Ward Lleweni erbyn diwedd mis Tachwedd 2019. Byddai gwaith wedyn yn dechrau ar lunio achos busnes amlinellol ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn y dyfodol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cais am gyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect. Nid oedd modd rhoi amserlen o ran faint o amser fyddai'n ei gymryd i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ond rhagwelwyd y byddai'n cymryd o leiaf tair blynedd i'w sicrhau cyn gallu dechrau adeiladu ar y safle. Er hynny, yn unol â dymuniadau Cynghrair Cyfeillion yr Ysbyty, roedd swyddogion y Bwrdd Iechyd yn awyddus i wneud defnydd o Ward Lleweni dros dro yn hytrach na'i gadael yn wag. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o leoli'r Tîm Adnoddau Cymunedol yno dros dro, neu symud y Therapyddion Cymunedol yno er mwyn hwyluso'r gwasanaeth 'camu i lawr' (yn debyg iawn i'r hyn a oedd yn digwydd yn Y Rhyl a Rhuthun) a symud y Tîm Nyrsio Ardal i'r adeilad caban ar y safle. gwahodd aelodau'r Pwyllgor ac aelodau lleol i gysylltu â nhw â'u syniadau o ran pa wasanaethau allai gael eu darparu ar y safle, naill ai ar sail dros dro neu fel rhan o'r ddarpariaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol yn Ninbych, a
- chadarnhau y byddai'r gost o ail-ddarparu mwy o wllâu i gleifion mewnol yn lle'r rhai a gollwyd yn yr Inffymari, yn cael ei harchwilio a'i hystyried cyn rhoi ystyriaeth i'w darparu mewn man arall.

Dywedodd Cadeirydd Grŵp Ardal Aelodau Dinbych, y Cynghorydd Rhys Thomas, wrth y Pwyllgor bod y Grŵp Ardal Aelodau Lleol yn monitro'r sefyllfa yn yr ysbyty'n agos, yn enwedig nifer y gwllâu i gleifion mewnol oedd ar gael yno gan eu bod yn pryderu bod gan y Bwrdd Iechyd duedd i gael gwared ar wllâu mewn ysbytai amrywiol cyn i wasanaethau eraill gael eu sefydlu yn eu lle a chyn iddynt fod yn gwbl weithredol. Bydd swyddogion y Bwrdd Iechyd yn mynd i gyfarfod y Grŵp Ardal Aelodau ym mis Ionawr 2019 i drafod y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Inffymari.

Ar ddiwedd y drafodaeth -

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod -

(a) derbyn yr wybodaeth ar y sefyllfa bresennol o ran Inffymari Dinbych, a

- (b) *bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y Gwanwyn 2019 ynglŷn â'r costau mynegol a nodwyd at ddibenion darparu gwllâu ychwanegol yn yr ysbyty, amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran datblygu achos busnes ar gyfer darparu gwasanaethau ar y safle yn y dyfodol, a manylu ar y cynlluniau hirdymor ar gyfer y cyfleuster yn y dyfodol.*

6 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU CYFALAF MAWR: PROSIECT YSBYTY GOGLEDD SIR DDINBYCH, CLINIC RHUTHUN A CHANOLFAN IECHYD CORWEN

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol - Therapiau y Bwrdd Iechyd gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r tri phrosiect cyfalaf mawr yn Sir Ddinbych. Amlinellodd y cefndir i bob prosiect ac, o ran sefyllfa bresennol bob prosiect, dywedodd -

Canolfan Iechyd Corwen

- bod cyfleuster addas i'r diben sy'n darparu amgylchedd o ansawdd uchel ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol gwell wedi agor ar y safle yng Nghorwen ar 12 Hydref 2018, gydag agoriad swyddogol wedi'i drefnu ar gyfer 29 Tachwedd 2018. Roedd gan y safle hefyd y potensial i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau'n ymwneud ag iechyd.
- roedd y Bwrdd Iechyd wedi dyfarnu £1.48m tuag at y prosiect o'i Ddyraniad Cyfalaf yn ôl Disgresiwn
- roedd y Ganolfan bellach yn cynnwys practis Meddyg Teulu a oedd hefyd yn cynnwys ystafelloedd ymgynghori ar gyfer doctoriaid dan hyfforddiant, gwasanaethau cardioleg arbenigol dan arweiniad Meddyg Teulu, dau le deintydd, gwasanaethau nyrsio ardal, gwasanaethau iechyd, ffisiotherapyddion, gwasanaethau podiatreg ynghyd â gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a
- gyda'r bwriad o ehangu'r gwasanaethau ymhellach, roedd gwaith yn mynd rhagddo i recriwtio staff deintyddol ychwanegol ac i asesu a oedd potensial i gynyddu presenoldeb y Sector Gwirfoddol (Trydydd Sector) ar y safle i gefnogi gwaith y Gwasanaeth Iechyd yn yr ardal.

Clinig Mount Street, Rhuthun

- yn 2016, bu i adolygiad o Ystadau Gofal Sylfaenol nodi nad oedd y cyfleuster hwn yn addas i'r diben. Oherwydd ei gyflwr gwael, daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad na fyddai gwario oddeutu £750,000 i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a diweddarau'r adeilad yn cyfateb i ddefnydd effeithiol o adnoddau ac ni fyddai'n darparu datrysiad hirdymor i ddiwallu anghenion ardal Rhuthun yn y dyfodol.
- gwnaed penderfyniad strategol i wneud cais am £1.7m o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru at ddibenion darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn agos at gartrefi cleifion drwy ad-leoli'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn y clinig safle Ysbyty Cymuned Rhuthun gyda'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau iechyd eraill ar y safle newydd maes o law.
- ar hyn o bryd, roedd y cynigion i symud y practis Meddyg Teulu, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol ac ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymunedol o safle'r Clinig

presennol i safle Ysbyty Rhuthun. Roedd y Tîm Deintyddol Cymunedol wrthi'n ystyried dau opsiwn, i symud i safle Ysbyty Rhuthun neu i ddefnyddio'r cyfleusterau presennol sydd ar gael yn Ninbych a Chorwen a darparu gwasanaeth symudol lle bo'n briodol, tra roedd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn trafod â Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru i archwilio posibiliadau mewn perthynas â darparu eu gwasanaethau o gyfleuster a rennir. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i archwilio'r potensial i ddarparu gwasanaethau ychwanegol o'r cyfleuster a adleoliwyd i Ysbyty Rhuthun, hynny yw, gweithgarwch gofal eilaidd / yn y gymuned megis gwasanaethau adferiad ysgyfeiniol ar gyfer de'r sir, gweithgaredd lles a gwasanaethau i gefnogi hyfforddiant ar gyfer Meddygon Teulu gwledig.

- roedd llawer o ddigwyddiadau i fudd-ddeiliaid eisoes wedi'u eu cynnal er mwyn mesur cefnogaeth a diddordeb y gymuned yn y model gwasanaeth newydd a derbyn y gwasanaethau 'newydd' arfaethedig. Rhagwelwyd y byddai'r holl ddigwyddiadau hyn yn dod i ben erbyn y Nadolig 2018. Roedd dylunwyr wrthi'n paratoi i gynhyrchu briffiau dylunio ar gyfer y cynigion ynghyd â chostau ac roedd achos busnes yn cael ei ysgrifennu gyda'r bwriad o sicrhau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect. Rhagwelwyd y byddai'r Bwrdd lechyd yn ystyried yr achos busnes yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Ar yr amod nad oes unrhyw oedi o ran yr amserlen a bod cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael ei gymeradwyo, rhagwelwyd y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod yr haf 2019, gyda'r gwasanaethau olaf yn cael eu trosglwyddo o safle presennol Clinig Mount Street i'r cyfleuster ar safle Ysbyty Rhuthun yn ystod y gwanwyn neu'r haf 2020.
- sicrhodd yr aelodau nad oedd rheswm i bryderu mewn perthynas â'r cynigion i symud gwasanaethau deintyddol cymunedol o Glinig Mount Street, Rhuthun i Ddinbych a Chorwen a darparu gwasanaeth symudol. Byddai'r un lefel o wasanaeth ar gael i gleifion yn Rhuthun a'r ardaloedd cyfagos a byddai'r cleifion yn cael dewis lle yr oeddent yn dymuno cael mynediad at y gwasanaethau hynny, yn Ninbych neu yng Ngorwen, neu os nad oedd yr un lleoliad yn gyfleus, byddai modd iddynt wneud cais am wasanaeth symudol i'w cartrefi, a
- chadarnhaodd bod ysbytai cymuned, megis Rhuthun, wedi ymgymryd â sawl gwasanaeth ychwanegol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd ystafell Fewnwythiennol newydd Dinbych yn darparu ystod o wasanaethau Mewnwythiennol arbenigol, hynny yw, Cemotherapi, gwasanaethau ar gyfer Canolfan Walton ac ati, rhagwelwyd y byddai gwasanaethau arbenigol eraill efallai yn cael eu darparu yn y gymuned / yn yr ysbyty cymuned yn y dyfodol ac roedd staff yn cael eu hyfforddi i ddarparu'r gwasanaethau arbenigol hyn.

Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych, Y Rhyll – roedd copi o'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect hwn, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd lechyd yn ystod ei gyfarfod ar 1 Tachwedd, ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, wedi'i ddisbarthu i aelodau gyda phapurau cyfarfod y Pwyllgor.

- roedd yr Achos Busnes Amlinellol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn mynd i'r afael â thri phrif faes, meysydd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'w cael yn y ddogfen, yn bennaf, sut oedd y cynnig prosiect yn cyd-fynd ac yn cyfrannu tuag at strategaeth a gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd lechyd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd yng Ngogledd Cymru, manylion fforddiadwyedd referniw'r cyfleuster newydd arfaethedig a sut oedd y Bwrdd yn cynnig diogelu a

defnyddio hen adeilad Ysbyty Brenhinol Alexandra, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, fel rhan o'i gynlluniau ar gyfer y safle.

- roedd yr Achos Busnes Amlinellol yn darparu gwybodaeth ar y gwasanaethau arfaethedig a fyddai'n cael eu darparu yn y cyfleuster newydd, yn cynnwys ward gyda 28 o wlaŵ i gleifion mewnol ac uned asesu amlddisgyblaethol, gwasanaeth ar gyfer mân anafiadau a salwch, clinigau i gleifion allanol, Ystafell Therapi Mewnwythiennol, gwasanaethau diagnosteg a therapi, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau iechyd rhywiol, gwasanaeth cleifion allanol iechyd meddwl pobl hŷn, Un Pwynt Mynediad/ safle gweithio integredig, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, cymorth gweinyddol ar gyfer timau integredig a chanolbwynt cymunedol (yn cynnwys caffi, cyfleusterau Trydydd Sector ac ystafelloedd cyfarfod).
- roedd yr amserlen arfaethedig ar gyfer y prosiect yn cynnwys cael ymateb a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar yr Achos Busnes Amlinellol ddim hwyrach na diwedd mis Ionawr 2019. Byddai hyn yn galluogi i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2020, gyda'r bwriad o ddechrau ar y gwaith adeiladu ar y safle yn ystod mis Medi 2020 a chwblhau'r adeilad newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Yn dilyn hyn, disgwyliwyd y byddai'r gwaith ailwampio ar hen adeilad Ysbyty Brenhinol Alexandra wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2022.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, bu i Gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd -

- gadarnhau bod y prisiadau ar gyfer yr holl brosiectau uchod wedi'u gwneud gan ymgynghorwyr prisio cymwys yn defnyddio fformiwla benodol wrth ymgymryd ag ymarferion prisio. Roedd y prisiadau a nodwyd ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol yn ystyried cost chwyddiant posibl.
- cadarnhau bod y costau amcangyfrifedig ar gyfer y prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych newydd arfaethedig wedi cynyddu'n sylweddol rhwng yr amser y lluniwyd yr Achos Busnes Strategol yn 2013 a'r Achos Busnes Amlinellol presennol, o £22.2m i £40.24m. Roedd tri rheswm am hyn ac mae'r tri wedi'u nodi yn nogfen yr Achos Busnes Amlinellol a gylchredwyd i'r Pwyllgor.
- hysbysu bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer symud ymlaen â phrosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych a phrosiectau eraill hyd at eu cwblhau yn ddibynnol ar bob cam o fewn y prosiect yn cael ei gymeradwyo/ gyflawni ar amser. Roedd y dyddiadau carreg filltir ar hyn o bryd yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn.
- hysbysu bod gwaith cynllunio gweithlu yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o staffio'r cyfleuster newydd yn Y Rhyl. Roedd y gwaith cynllunio gweithlu ar gyfer y cyfleuster yn amlweddog, roedd y staff a fyddai'n darparu llawer iawn o'r gwasanaethau yn y cyfleuster eisoes wedi'u cyflogi, byddai'n fater o'u hadleoli i'r cyfleuster. Byddai recriwtio staff newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar staff ar gyfer y ward, a rheoli'r gwaith o redeg y cyfleuster a'r ystâd o ddydd i ddydd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn ymgymryd ag ymarferion recriwtio lleol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn mentrau recriwtio cenedlaethol.
- cadarnhau, er y byddai nifer o'r gwasanaethau yn Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych dan arweiniad nyrs neu ymarferydd nyrsio, digon hawdd fyddai cael mynediad at gyngor meddygol os oedd angen.
- amlinellu'r ystod o wasanaethau a oedd yn cael eu darparu mewn Uned Triniaethau Dydd, a allai gael ei datblygu ar safle Ysbyty Cymuned Gogledd Sir

Ddinbych os yw'r cynllun peilot Uned Triniaethau Dydd, sy'n cael ei dreialu yn Llandudno ar hyn o bryd yn llwyddiannus. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys, triniaeth ar gyfer heintiau'r llwybr wrinol, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac ati, sydd ar hyn o bryd yn golygu bod rhaid i'r claf fynd i Ysbyty Ardal Cyffredinol. Pe bai'r cynllun peilot yn llwyddiannus, byddai modd sefydlu Unedau Triniaethau Dydd ar nifer o safleoedd ar draws Gogledd Cymru er mwyn lleihau'r pwysau ar Ysbytai Ardal Cyffredinol. Byddai cleifion yn ymweld â'r uned yn ddyddiol, naill ai'n defnyddio eu cludiant eu hunain, cludiant cyhoeddus neu lle bo'r angen byddai cludiant yn cael ei ddarparu. Byddai'r cleifion yn cael eu monitro ac os nad oedd eu cyflwr yn gwella'r gyda'r driniaeth a oedd yn cael ei rhoi, neu'n gwaethygu, byddent yn cael eu 'symud ymlaen' i'r uned fewnol fwyaf priodol.

- hysbysu nad oeddent ar hyn o bryd yn rhagweld y byddai Uned Triniaethau Dydd ar gael yn unrhyw le arall heblaw Y Rhyl yn Sir Ddinbych, oherwydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol roedd rhaid ei leoli mewn ardal â llawer o bobl. Er hynny, ni ddylai lleoliad yr uned fod yn rhwystr i breswylwyr o ardaloedd eraill o fewn y sir rhag cael mynediad at ei gwasanaethau os mai honno oedd yr uned agosaf at eu cartrefi.
- hysbysu y byddai'r gwaith i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych yn cynnwys dadansoddiad manwl mewn perthynas â darpariaeth maes parcio a chysylltiadau cludiant cyhoeddus i'r cyfleuster. Roedd y gwaith archwiliadol a gynhaliwyd eisoes wedi nodi bod y safle wedi'i gwasanaethau'n dda gan gludiant cyhoeddus. Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'r gwaith o ddymchwel yr adeiladau dros dro ar safle bresennol Ysbyty Brenhinol Alexandra yn sicrhau tir ychwanegol a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer maes parcio i'r ysbyty. Yn ychwanegol, roedd meysydd parcio cyhoeddus y codir tâl i barcio ynddynt, gerllaw, cyfleusterau parcio ar y promenâd a lleoedd parcio am ddim ar strydoedd cyfagos. Roedd y Bwrdd hefyd yn datblygu Cynllun Teithio Gwyrdd ac yn archwilio'r posibilrwydd o 'brynu' Ffordd Alexandra gan y Cyngor i hwyluso 'dad-fabwysiadu' a fyddai'n darparu mynediad diogel a hwylus rhwng hen safle Ysbyty Brenhinol Alexandra a safle'r cyfleuster iechyd newydd ac o bosib y byddai hefyd yn creu mannau ychwanegol i gerbydau gael parcio.

Yn ystod y drafodaeth, mynegodd yr aelodau eu pryderon nad oedd rhai o'r cyfleusterau a etifeddwyd gan y Bwrdd Iechyd presennol wedi bod yn destun prosesau cynllunio busnes llym yn ystod eu dyluniad i sicrhau y byddent yn addas ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, roedd y bwrdd yn gorfod buddsoddi'n sylweddol er mwyn darparu safle addas ar gyfer darparu gwasanaethau. Gofynnodd yr aelodau i swyddogion y Bwrdd sicrhau y byddai'r holl gyfleusterau newydd arfaethedig yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn addasadwy er mwyn diwallu anghenion newidiol a disgwyliadau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Pwyllgor i swyddogion y Bwrdd Iechyd am fynychu'r cyfarfod i ddiweddarau'r aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar y prosiectau cyfalaf uchod ac ateb eu cwestiynau mewn perthynas â hynny.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod -

- (a) *derbyn y wybodaeth ar y sefyllfa bresennol o ran prosiectau cyfalaf Ysbyty Gogledd Sir Ddinbych, Clinig Rhuthun a Chanolfan Iechyd Corwen, a*
- (b) *gofyn bod y Bwrdd Iechyd yn briffio'r Pwyllgor ymhellach ar yr holl brosiectau cyfalaf yn Sir Ddinbych, yn cynnwys prosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych, Canolfan Iechyd Corwen, Clinig Rhuthun a datblygiad y Timau Adnoddau Cymunedol yn ystod y Gwanwyn 2019.*

Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

7 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWEITHREDU ATAL DIGARTREFEDD A CHYNLLUN COMISIYNU DRAFFT 2019-22

Wrth gyflwyno'r adroddiad a'r atodiadau (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd y Cyngor hyd yma o ran cyflawni ei Gynllun Gweithredu i Atal Digartrefedd, dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth wrth y Pwyllgor mai prif nod y Cyngor oedd atal digartrefedd. Mewn ymgais i gyflawni'r nod hwn, mabwysiadwyd dull aml-asiantaeth ac aml-wasanaeth gyda'r bwriad o gefnogi pobl a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref. Hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd Sir Ddinbych drafft ar gyfer 2019-22, a oedd yn amlinellu sut yr oedd y Cyngor yn cynnig datblygu ac ail-fodelu prosiectau cefnogi yn y sir dros y tair blynedd nesaf i gefnogi mwy o bob a oedd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Roeddent yn dal i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran swm y cyllid Grant Cefnogi Pobl a fyddai'n cael ei ddyfarnu i'r Cyngor ar gyfer 2019-2022, er nad yw toriad i'r gyllideb yn ddisgwyliedig flwydd nesaf, roedd y Cyngor, fel rhan o gynllunio'r gyllideb, wedi cynnwys arian at raid o 5% yn y cynllun cyflawni.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a'r Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd -

- gadarnhau bod swyddogion, wrth lunio'r Cynllun Comisiynu a'r Cynllun Gweithredu, wedi cynnwys cynllun wrth gefn gyda thoriad o 5% yn y rhagdybiaethau cyllideb. Ar gyfer y flwyddyn i ddod, roedd hyn wedi'i wneud ar sail arbedion effeithlonrwydd posibl ac ail-lunio'r gwasanaethau i ddarparu mwy o waith atal digartrefedd yn hytrach na gwaith ymyrryd. Roedd hefyd yn cael ei gydnabod yn eang bod gwaith atal yn y pen draw yn costio llai na gwaith ymyrraeth rhagweithiol.
- cadarnhau bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn â Chanolfan Dewi Sant yn Y Rhyl, a oedd yn darparu lloches a chymorth i unigolion a theuluoedd digartref. Roedd Swyddog Digartrefedd y Cyngor a'r Swyddog Ymgysylltu â Dinasyddion yn ymweld â'r Ganolfan yn rheolaidd. Yn ychwanegol roedd yr awdurdod wedi comisiynu gwasanaethau yn y ganolfan.
- cyfeirio at y newid o ran ffocws i wasanaeth ataliol mwy rhagweithiol e.e. wrth i Swyddog Atal Digartrefedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol ymweld â charcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar er mwyn eu rhwystro rhag gadael y carchar yn ddigartref.
- cynghori bod y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio gydag oddeutu 500 o aelwydydd yn Sir Ddinbych mewn perthynas â materion tai a digartrefedd.

- hysbysu bod amryw o resymau i egluro pam bod unigolion a theuluoedd mewn perygl o golli eu cartrefi, hynny yw, camddefnyddio sylweddau/ cyffuriau/ alcohol, diwygio'r gyfundrefn les, trafferthion ariannol / dyledion, effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Dyna'r rheswm dros aildrefnu'r tîm i'w alluogi i gynnig cymorth ataliol sy'n fwy arbenigol.
- pwysleisio bod pob unigolyn a fu mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth wedi bod yn unigolyn diamddiffyn.
- dangos, drwy astudiaeth achos, effeithiolrwydd y Swyddog Atal Digartrefedd o fewn y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau (Civica) yn y Ganolfan Waith wrth helpu pobl i reoli eu dyledion a chynllunio eu harian er mwyn atal argyfwng.
- cadarnhau y bu presenoldeb da yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynnyddol ac fe rannwyd llawer iawn o brofiadau personol yn ystod y digwyddiad. Roedd yr adborth a gafwyd wedi'r digwyddiad yn gadarnhaol iawn. Er hynny, byddai lle i wella bob amser. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, roedd cysylltiadau cryfach yn cael eu creu rhwng partneriaid mewnol, gyda'r bwriad o gryfhau arferion gwaith i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu i argyfyngau.
- hysbysu bod y broses dendro gystadleuol a gynhaliwyd ar gyfer darparu tai â chymorth wedi'i chynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor. Roedd darparwr newydd wedi'i benodi. Roedd y mwyafrif o'r 'unedau â chymorth' wedi'u trosglwyddo gan y darparwr blaenorol i'r darparwr newydd. Fodd bynnag, roedd chwech o unedau yn dal heb eu trosglwyddo ac roedd y darparwr newydd wedi ymrwmo i ddarparu llety priodol yn lle'r unedau nad oedd wedi'u trosglwyddo. Roedd rhai aelodau o staff wedi'u trosglwyddo i'r darparwr newydd o dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth. Roedd y Cyngor yn monitro darpariaeth y contract yn agos, yn unol â'i weithdrefnau rheoli contract ac roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael ei cynnal â'r darparwr i gefnogi cydymffurfedd â gofynion y fanyleb dendro.
- cadarnhau, er bod rhai unigolion/ teuluoedd yn ne'r sir yn cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu osgoi bod yn ddigartref, roedd y mwyafrif o achosion a oedd yn derbyn cymorth wedi'u lleoli yng ngogledd y sir.
- hysbysu, er i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar unigolion dros 18 mlwydd oed, bod gan y Gwasanaeth ffigyrau ar gyfer unigolion 16-18 mlwydd oed a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd y Gwasanaeth y gweithio gyda nhw drwy'r prosiect Llwybrau Cadarnhaol Pobl Ifanc.
- cadarnhau bod gan y Gwasanaeth brotocol tywydd garw mewn perthynas â digartrefedd a oedd yn weithredol pan fo tywydd garw wedi'i ragweld, a
- dweud y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos ar sut yr oedd yr Awdurdod yn bwriadau rhoi'r gorau i ddefnyddio llety anaddas i letya unigolion a theuluoedd digartref.

Awgrymodd yr Aelodau y dylai adroddiadau a Chynlluniau Comisiynu yn y dyfodol gynnwys ffigyrau gwirioneddol yn ychwanegol i'r canrannau wrth gyfeirio at unigolion / teuluoedd/ aelwydydd a gefnogir gan y Gwasanaeth a'i bartneriaid, gan y byddai hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor i fesur graddau'r problemau ac i weld graddau'r broblem ddigartrefedd yn y sir ac a oedd tueddiad yn datblygu. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd bod fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cynllun Comisiynu yn cael eu prawf-ddarllen er mwyn cael gwared ar gamgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol a bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno iddynt ar Bobl sy'n Gadael Carchar a'r Gwasanaeth Digartrefedd.

Wrth longyfarch y Gwasanaeth ar ei waith a'r cymorth yr oedd yn ei ddarparu i deuluoedd ac unigolion diamddiffyn. Pwysleisiodd yr aelodau'r angen i symud ymlaen ag amcanion y gwaith Un Llwybr Mynediad at Dai a pha mor bwysig yr oedd i'r Cyngor ddechrau ar ei gynlluniau i adeiladu mwy o dai cymdeithasol yn y sir.

Ar ddiwedd y drafodaeth -

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani -

- (a) *cefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;*
- (b) *sicrhau bod cynlluniau ar y gweill i liniaru ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyllid Cefnogi Pobl yn y dyfodol;*
- (c) *bod ei sylwadau a'i argymhellion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar y Cynllun Comisiynu, i'w gyflwyno i'r Cabinet yn ystod ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, a*
- (d) *bod Adroddiad Gwybodaeth ar Bobl sy'n Gadael Carchar a'r Gwasanaethau Digartrefedd yn cael ei ddsbarthu i aelodau.*

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth -

- ail-gadarnhawyd yr eitemau ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr ac fe gytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i'r cyfarfod; cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw gan ddweud y byddai Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a' Parth Cyhoeddus yn bresennol ar ei rhan.
- nodwyd nad oedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfeirio unrhyw faterion at y Pwyllgor yn ystod eu cyfarfod diwethaf.
- cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu bod y cynigion ar gyfer trefniadau cyd-graffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych bellach wedi'u cymeradwyo gan y ddau Gyngor a byddai swyddogion yn datblygu'r trefniadau hyn; byddai'n rhaid cysylltu â'r Arweinwyr Grŵp i benodi wyth o gynrychiolwyr (nad ydynt yn Aelodau Cabinet) ar gyfer y Cydbwyllgor Craffu yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol.
- nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i grynhoi'r adroddiad gwybodaeth ar ofalwyr ifanc a geisiwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 20 Medi 2018 a byddai'n cael ei ddsbarthu i aelodau maes o law.
- cadarnhawyd y byddai adroddiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor o dan eitemau rhaglen blaenorol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith

- anogodd y Cadeirydd y aelodau i fynd i gyfarfod y Fforwrn Rhiantu Corfforaethol a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 2.00 p.m. ddydd Mawrth, 11 Rhagfyr yn Ystafell Gynadledda 1b, Neuadd Y Sir, Rhuthun.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Adroddodd y Cadeirydd ynghylch ei phresenoldeb diweddar yng nghyfarfod Her Gwasanaeth Cyfathrebu a Marchnata a dywedodd ei fod yn perfformio'n dda – anogodd yr aelodau i ddarllen nodiadau'r cyfarfod pan oeddent ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Melvyn Mile ei fod wedi bod yn yr Her Gwasanaeth Gwelliant Busnes a Moderneiddio ar 2 Hydref, cylchredwyd nodiadau'r cyfarfod yn flaenorol fel rhan o Friff Gwybodaeth y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiadau ar lafar.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.